# JAMES, THOMAS EVAN ('Thomas ab Ieuan '; 1824 - 1870), gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac awdur

**Enw:** Thomas Evan James
**Ffugenw:** Thomas ab Ieuan
**Dyddiad geni:** 1824
**Dyddiad marw:** 1870
**Rhiant:** Mary James
**Rhiant:** Evan James
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd 17 Mawrth 1824, ym Mhencraig, plwyf Llangoedmor, sir Aberteifi, mab Evan a Mary James. Symudodd y teulu i Aberteifi pan oedd ef tua 13 oed. Bu am beth amser yn was fferm Heolcwm, plwyf Ferwig, Sir Aberteifi. Ymunodd â'r Bedyddwyr, a bu'n gwasanaethu yn anordeiniedig yn eglwys Groesgoch, Sir Benfro (1851-2). Urddwyd ef, a gwnaed ef yn weinidog Pontestyll, ger Aberhonddu (1853-6). Bu hefyd yng Nghwmbach, Aberdâr (1856-8), Castell Nedd (1858-61), a Glyn Nedd (1861-70). Bu farw 21 Mehefin 1870. Ymhlith ei weithiau ceir *Marwnad Joel Jones, gweinidog ym Mhwllheli*; *Coffadwriaeth y Cyfiawn neu sylwedd pregeth ... or farw Dafydd Jones o Gaerdydd a Stephen Edwards o Rymni*; *Deigryn ar ol Cyfaill ... John Jones, Merthyr*; *Cofiant ... James Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Cincinatti, Ohio*. Casglodd a golygodd ddetholiad o farddoniaeth, *Bwrdd y Beirdd yn cynnwys Detholion Prydyddol o waith Prif Feirdd yr Oes*, a golygodd hefyd lyfryn ar Christmas Evans, sef, *Christmasia neu rai o nodweddiadau ... Christmas Evans, gan Bleddyn* (D. Owen, ' Brutus ').

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau

*Neillduolion y diweddar Barch. T. E. James, Glynnedd* (Treherbert 1875), 1875

*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru*, 1871

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734444

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu